

Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd Cyfoeth Naturiol Cymru: Lle Gogledd-orllewin Cymru

Cynnwys

1. Cyflwyniad	3
2. Lle Gogledd-orllewin Cymru.....	5
3. Llifogydd hanesyddol yng Ngogledd-orllewin Cymru	7
4. Y perygl llifogydd heddiw yng Ngogledd-orllewin Cymru	9
5. Y perygl llifogydd heddiw yng Ngogledd-orllewin Cymru	16
6. Gweithgaredd rheoli perygl llifogydd diweddar	22
7. Gwaith rheoli perygl llifogydd yr ydym yn ei gynllunio yng Ngogledd-orllewin Cymru	24
8. Cynllun Cyflawni CNC ar gyfer Lle Gogledd-orllewin Cymru	27
9. Monitro ac adolygu	34
10. Rhagor o wybodaeth.....	34

1. Cyflwyniad

Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yw'r corff mwyaf a noddir gan Lywodraeth Cymru, a'n diben craidd yw rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yng Nghymru.

Mae gennym amrediad o rolau a chyfrifoldebau, sy'n amrywio o reoleiddiwr i gynghorydd, tîrffediannwr, gweithredwr ac ymatebwr mewn argyfwng. Mae gennym drosolwg strategol ar gyfer rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol sy'n golygu goruchwyllo a chyfleu gwaith rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yn gyffredinol yng Nghymru. Mae gennym bwerau hefyd i reoli llifogydd o brif afonydd, cronfeydd dŵr a'r môr.

Yng Nghymru, amcangyfrifir bod 245,118 eiddo mewn perygl o ddiodeff llifogydd o'r môr, afonydd a dŵr wyneb. Mae hyn yn golygu tua un adeilad ym mhob wyth yng Nghymru. Rydym yn dilyn dull sy'n seiliedig ar risg o reoli perygl llifogydd drwy'r gweithgareddau a gyflawnir gennym.

Mae'r Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd (CRhPLI) hwn yn cwmpasu Cymru gyfan ac yn rhoi gwybodaeth am raddfa'r risg o lifogydd, yn ogystal â blaenoriaethau CNC ar gyfer rheoli'r risg o lifogydd, a mesurau yr ydym yn bwriadu eu cymryd, dros y blynyddoedd i ddod. Mae'r CRhPLI hwn yn ymdrin â llifogydd o afonydd, cronfeydd dŵr a'r môr. Nid yw'n cynnwys llifogydd o ddŵr wyneb a chysiau dŵr llai, y mae Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol yn arwain yn eu cylch ac y mae ganddynt bwerau i ymdrin â nhw.

Rhennir y CRhPLI yn ddwy brif adran. Yn yr adran gyntaf, fe welwch wybodaeth, a blaenoriaethau a mesurau a osodwyd ar lefel Genedlaethol (Cymru). Rhennir yr ail adran – hon – yn ôl [ardaloedd gweithredol CNC](#), a elwir hefyd yn Lleoedd CNC, lle ceir gwybodaeth fanylach a mesurau ar raddfa leol. Y bwriad yw rhoi'r dewis ichi naill ai ddarllen y CRhPLI yn ei gyfanrwydd er mwyn ichi gael dealltwriaeth lawn o'r hyn sydd wedi'i gynllunio ledled Cymru, neu gyfeirio at yr adran Lle sy'n berthnasol i ble rydych yn byw.

Drwy gael eu gosod yn y modd hwn, bwriedir i'r cynlluniau hyn gyd-fynd â'r [Datganiadau Ardal](#) (a gafodd eu datblygu mewn ymateb i'r [Polisi Adnoddau Naturiol](#)) a chefnogi'r broses o'u cyflawni. Mae Datganiad Ardal Gogledd-orllewin Cymru yn nodi'r Argyfwng Hinsawdd ac Amgylchedd fel thema allweddol ac mae'r Datganiad Ardal Forol sy'n cwmpasu holl arfordir Cymru, yn nodi atebion ac addasiadau sy'n seiliedig ar natur ar yr arfordir fel thema allweddol. Mae'r wybodaeth a'r camau gweithredu arfaethedig yn y CRhPLI hwn yn berthnasol yn uniongyrchol i'r heriau hyn ac yn nodi ein huchelgeisiau o ran rheoli perygl llifogydd er mwyn helpu i fynd i'r afael â nhw.

Mae'r adran Lle Gogledd-orllewin Cymru hon yn rhoi gwybodaeth am lefel y risg ar raddfa leol ac yn disgrifio'r hyn rydym wedi'i gynllunio ar gyfer y cymunedau yr ydym yn pryderu fwyaf yn eu cylch. Yn unol ag Amcanion [Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol Genedlaethol Llywodraeth Cymru](#), rydym yn blaenoriaethu ein gwaith ac yn cyfeirio ein hymdrechion, gan flaenoriaethu ar sail risg llifogydd, at y cymunedau sydd â'r risg fwyaf o lifogydd. Rydym yn gwneud hyn gan ddefnyddio ein Cofrestr Cymunedau mewn Perygl sy'n ystyried nifer o ffactorau er mwyn nodi'r lleoliadau (cymunedau) sy'n wynebu'r perygl llifogydd mwyaf ar draws ardal Gogledd-orllewin Cymru. Defnyddir y Gofrestr Cymunedau mewn Perygl i lywio, cynllunio a blaenoriaethu ein rhaglen fuddsoddi i dargedu buddsoddiad yn yr ardaloedd mwyaf agored i berygl llifogydd. Nid yw'n graddio risg mewn modd absoliwt, ond mae'n dangos arwyddocâd cymharol y risg fesul lleoliad. Rydym yn ei defnyddio ar y cyd â ffactorau eraill i ddyrannu ein rhaglenni gwaith ar gyfer rheoli perygl llifogydd.


Defnyddiwyd y Gofrestr Cymunedau mewn Perygl i lywio'r broses o nodi Ardaloedd Perygl Llifogydd [yn adroddiadau Asesiad Cychwynnol o'r Bygythiad Llifogydd 2018](#). Nod y CRhPLI yw disgrifio pa gamau yr ydym yn eu cymryd yn yr Ardaloedd Perygl Llifogydd hyn, ynghyd â chymunedau eraill yr ydym yn barnu bod angen gweithredu ynddynt, naill ai mewn ymateb i lifogydd diweddar a gafwyd neu drwy dargedu'r rheini sy'n wynebu'r perygl mwyaf, gan ddefnyddio'r Gofrestr Cymunedau mewn Perygl. Felly mae'r CRhPLI hwn yn cyflawni ein gofynion o dan adran 25 o Reoliadau Perygl Llifogydd 2009, ond bydd hefyd yn ystyried digwyddiadau llifogydd afonol ac arfordirol diweddar a gwaith dilynol sy'n deillio ohonynt.

Mae'r mesurau sydd wedi'u cynnwys yn y cynllun hwn yn gywir ar adeg ysgrifennu'r adroddiad. Byddwn yn cynnal adolygiad blynyddol o'r cynnydd a wnaed o ran cyflawni'r mesurau, ac yn diwygio unrhyw fesurau yn ôl yr angen er mwyn sicrhau ein bod yn parhau i ddefnyddio dull sy'n seiliedig ar risg o reoli perygl llifogydd.

2. Lle Gogledd-orllewin Cymru

Mae Lle Gogledd-orllewin Cymru CNC yn cwmpasu awdurdodau lleol Conwy, Ynys Môn a Gwynedd. Mae wedi'i amgylchynu gan Le Gogledd-ddwyrain Cymru i'r Dwyrain a Lle Canolbarth Cymru i'r De.

Ffigur 1: Yr ardal ofodol a gwmpesir gan Le Gogledd-orllewin Cymru, ynghyd â'i lleoliad mewn perthynas â gweddill Cymru.



Mae Lle Gogledd-orllewin Cymru yn wledig ei natur yn bennaf ac mae amaethyddiaeth a choedwigaeth yn amlwg iawn. Mae'n ardal o dirwedd amryfal ac amrywiol sy'n cynnwys mynyddoedd serth Parc Cenedlaethol Eryri ac arfordir helaeth yn cynnwys Penrhyn Llŷn ac Ynys Môn.

Ceir llawer o safleoedd dynodedig pwysig o safbwynt cadwraeth a bioamrywiaeth ar draws Lle Gogledd-orllewin Cymru, sy'n bwysig o ran denu twristiaid sy'n dymuno treulio'u hamser hamdden ynddynt, megis Parc Cenedlaethol Eryri ac Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) Llŷn.

Gall hyd at 4,000mm o law yn disgyn ar ddalgylchoedd serth uchaf Eryri bob blwyddyn. Mae'r ddaear a phriddoedd anathraidd, ynghyd â llethrau serth a glawiad uchel, yn golygu bod yr afonydd hynny sy'n tarddu yn y mynyddoedd yn tueddu i fod â sianeli afon serth a chyflym iawn cyn gwastatáu ger yr arfordir, sy'n eu gwneud yn ymatebol iawn i law.

Ymhlith yr aneddiadau mawr mae Bangor, Caernarfon, Bae Colwyn, Llandudno a Phorthmadog.

Mae gan Lle Gogledd-orllewin Cymru arfordir sy'n ymestyn o Aberdyfi yn y De i'r Rhyl yn y Gogledd. Mae arfordir garw a thraethau Penrhyn Llŷn ac Ynys Môn yn denu llawer o ymwelwyr bob blwyddyn. Mae arfordir Lle Gogledd-orllewin Cymru wedi'i gwmpasu gan Gynllun Rheoli Traethlin 'Gorllewin Cymru' yn bennaf, ac mae rhan fechan o'r arfordir wedi'i chwmpasu gan Gynllun Rheoli Traethlin 'Gogledd Cymru a Gogledd-orllewin Lloegr'.

Yr afonydd mwyaf a geir yn Lle Gogledd-orllewin Cymru yw afon Conwy, afon Glaslyn ac afon Mawddach.

Mae Afon Conwy yn ymestyn tua 55 cilometr o'i tharddiad yn y Migneint i'w haber lle mae'n llifo i Fôr Iwerddon yn nhref Conwy. Mae'r afon yn disgyn yn gyflym yn rhan uchaf y dalgylch cyn gwastatáu ger yr arfordir lle mae'r llanw'n effeithio ar ei rhannau isaf. Mae'r afon yn llifo o'r De tua'r Gogledd ac mae'r tiroedd cyfagos yn wledig yn bennaf gydag ychydig o ardaloedd trefol. Ymhlith y cymunedau allweddol mae Bae Colwyn, Conwy, Llandudno, Llanrwst a Threfriw.

Mae Afon Glaslyn tua 26 cilometr o hyd ac yn llifo o'i tharddiad ar lethr yr Wyddfa i'r man lle mae'n cwrdd â'r môr yn nhref Porthmadog. Yn rhannau uchaf yr afon, mae'r sianel serth wedi dylanwadu'n fawr ar y dirwedd o'i hamgylch wrth greu Bwlch Aberglaslyn. Yn y rhannau isaf, mae'r dyffryn llydan gwastad a grëwyd gan aber Afon Glaslyn bellach wedi'i selio i ffwrdd gan y Cob ym Mhorthmadog, ac mae'r ardal wedi'i hadennill fel tir fferm pwysig. Mae Beddgelert a Phorthmadog yn gymunedau allweddol.

Mae Afon Mawddach tua 45 cilometr o hyd ac yn llifo o'i tharddiad ger Dduallt yn Eryri i'w haber lle mae'n llifo i'r môr yn y Bermo. Mae gan Afon Mawddach lawer o isafonydd, y mae llawer ohonynt o faint tebyg i Afon Mawddach ei hun, gan gynnwys Afon Wnion. Ymhlith y cymunedau allweddol mae'r Bermo, Dolgellau a Fairbourne.

Mae'r afonydd nodedig eraill yn Lle Gogledd-orllewin Cymru yn cynnwys Afon Adda, Afon Cadnant, Afon Carrog, Afon Cefni, Afon Dwyfach, Afon Dysynni, Afon Gwyrfai, Afon Heulyn, Afon Ogwen, Afon Rhyd-hir ac Afon Seiont.

Mae blaenddyfroedd Afon Dyfrdwy, gan gynnwys Llyn Tegid, wedi'u lleoli o fewn Lle Gogledd-orllewin Cymru, ac yn llifo i Le Gogledd-ddwyrain Cymru.

3. Llifogydd hanesyddol yng Ngogledd-orllewin Cymru

Yn yr adran hon ceir crynodeb o'r digwyddiadau llifogydd sylweddol sydd wedi digwydd dros yr 20 mlynedd diwethaf yn Lle Gogledd-orllewin Cymru. Yn y rhan fwyaf o achosion, rydym yn dosbarthu digwyddiad llifogydd yn ddigwyddiad sylweddol os cafwyd llifogydd mewn 20 eiddo (preswyl neu fasnachol) neu ragor. Bu digwyddiadau tywydd eithafol eraill hefyd sydd wedi achosi llifogydd lleol, efallai nad ydynt wedi'u cynnwys yn y digwyddiadau y canolbwyntir arnynt yma.

Rhoddir crynodeb isod o bob un o'r digwyddiadau llifogydd sylweddol a brofwyd ar draws Lle Gogledd-orllewin Cymru:

- Ym mis Ionawr 2005, effeithiodd llifogydd ar 44 eiddo yn Llanrwst, Trefriw a Betws-y-coed. Roedd eu ffyrdd dan ddŵr a chafodd rheilffordd dyffryn Conwy ei difrodi a'i chau.
- Ym mis Mawrth 2010 gorlifodd tonnau mawr dros amddiffynfeydd yn Llanfairfechan gan achosi llifogydd mewn tua 20 eiddo islawr.
- Ym mis Mehefin 2012, achosodd glawriad dwys llifogydd mewn sawl cymuned ar ôl i afonydd orlifo'u glannau. Effeithiodd hyn yn bennaf ar ddalgylch Afon Dyfi ac Afon Leri ond yn benodol ar gyfer ardal y Gogledd-orllewin ill dau. Effeithiwyd ar bentrefi Pennal a Brynchrug, a bu eiddo o dan ddŵr a chafwyd effaith ar lwybrau trafniadaeth.
- Ar 22 Tachwedd 2012, cafwyd llifogydd o afonydd a glaw yn Llanberis, Tal-y-bont, Deiniolen a Llanfair Talhaearn. Yn Llanberis, cafwyd llifogydd mewn 70 eiddo; yn Nhal-y-bont, cafwyd llifogydd mewn 20 eiddo preswyl; yn Neiniolen, cafwyd llifogydd mewn 29 eiddo ac yn Llanfair Talhaearn, cafwyd llifogydd mewn 21 eiddo.
- Ym mis Rhagfyr 2013, achosodd cyfuniad o lanwau uchel, gwyntoedd cryfion a thonnau mawr llifogydd ar hyd arfordir Conwy. Dioddefodd cymunedau fel Deganwy a Llanddulas llifogydd mewn eiddo.
- Ym mis Ionawr 2014, achosodd cyfuniad o lanwau uchel, gwyntoedd cryfion a thonnau mawr llifogydd eang o amgylch arfordir Cymru, ac effeithiwyd ar 15 eiddo yn y Bermo, naw eiddo yng Nghaernarfon, ac yn Fairbourne, Y Felinheli a Phyllheli ac effeithiwyd ar un neu ddau eiddo ym mhob cymuned.
- Ar 26 Rhagfyr 2015, cafwyd llifogydd ar draws Conwy a Gwynedd, a effeithiodd ar Dal-y-bont, Gwynedd (20 eiddo dan ddŵr) ac Afon Conwy (33 carafán) yn enwedig. Achosodd hyn llifogydd eang hefyd a darddodd yn nalgylchoedd Afon Gwyrfai ac Afon Seiont, a effeithiodd ar gymunedau ym Metws Garmon (Teras Gwyrfai), Bontnewydd a Chaernarfon.

- Ar 22 Tachwedd 2017, cafwyd llifogydd yn Llangefni ar Ynys Môn, lle bu chwe chartref a 27 eiddo masnachol o dan ddŵr, ac yn Nwyran, lle cafwyd llifogydd mewn 13 o gartrefi.
- Ar 16 Mawrth 2019, effeithiodd Storm Gareth ar eiddo ym Metws-y-coed a Llanrwst lle bu llifogydd mewn 40 eiddo
- Ar 27 Ebrill 2019, daeth Storm Hannah â glaw trwm a ddisgynnodd ar draws mynyddoedd Cymru. Yng Nghapel Curig (Conwy), cofnodwyd bod cyfanswm o 108.4mm o law wedi disgyn dros ddau ddiwrnod, rhwng 26 a 27 Ebrill, sef 71% o'r cyfartaledd tymor hir rhwng mis Ebrill 1981 a mis Ebrill 2010, gyda'r rhan fwyaf o'r glaw hwn yn disgyn dros gyfnod o 22 awr.
- Storm Ciara (8-9 Chwefror 2020) oedd y gyntaf o dair storm a enwyd i gael effaith ar Gymru yn ystod mis Chwefror 2020, sef y mis Chwefror gwlypaf a gofnodwyd erioed, erbyn hyn. Cafodd y storm yr effaith waethaf ar Ogledd Cymru, a chododd afonydd i'w lefelau uchaf erioed a chofnododd mesuryddion y glawiad uchaf erioed. Roedd 182 eiddo o dan ddŵr ar draws Lle Gogledd-orllewin Cymru, 172 eiddo o dan ddŵr yng Nghonwy a 10 yng Ngwynedd.
- Ym mis Awst 2020 cafodd storm Francis effaith sylweddol ar Feddgelert ym Mharc Cenedlaethol Eryri, Gwynedd. Roedd y storm hon yn system pwysedd isel ddofn o'r lwerydd a ddaeth â glaw trwm sylweddol a gwyntoedd o 70-70mya yn ei sgil. Achosodd y cyfuniad o lefelau afon eithafol o uchel yn Afon Colwyn a chyflymder gwynt i goed ddisgyn i'r afon, a gorfiodd yr afon gan achosi llifogydd mewn cartrefi a busnesau, gan effeithio ar 47 eiddo. Cafodd y storm effaith hefyd ar Abergwyngregyn, Bethesda a Betws Garmon.
- Yn sgil tywydd gwlyb ar ddiwedd mis Hydref 2021, cododd afonydd i lefelau uchel ac effeithiwyd ar eiddo gwledig ar Ynys Môn ac yng Ngwynedd. Bu eiddo o dan ddŵr yn Nulas, Betws Garmon, Pwllheli ac Abererch.

4. Y perygl llifogydd heddiw yng Ngogledd-orllewin Cymru

Ar draws Lle Gogledd-orllewin Cymru, mae 13,533 eiddo mewn perygl o ddiodeff llifogydd o'r môr a 8,756 eiddo mewn perygl o lifogydd o afonydd. Mae hyn yn cyfateb i dros 36,000 o bobl sydd mewn perygl o ddiodeff llifogydd o'r môr a bron i 23,000 o bobl sydd mewn perygl o ddiodeff llifogydd o afonydd.

Categoriâu perygl llifogydd

Mae llifogydd afon yn digwydd pan na all afon ymdopi â faint o ddŵr sy'n draenio i mewn iddi o'r tir o'i hamgylch. Mae llifogydd môr neu lifogydd llanwol yn digwydd pan fo llanw uchel ac amodau stormus. Rydym yn disgrifio maint y risg i bob eiddo fel y 'siawns' y bydd llifogydd yn digwydd. Mae tri chategori risg:

- Os disgrifir bod gan rywle risg '**uchel**' o lifogydd, mae hyn yn golygu, ym mhob blwyddyn, fod siawns o fwy nag 1 ym mhob 30 (3.3%) y bydd yn diodeff llifogydd.
- Os disgrifir bod gan rywle risg '**ganolig**' o lifogydd, mae hyn yn golygu, ym mhob blwyddyn, fod siawns rhwng 1 ym mhob 100 (1%) ac 1 ym mhob 30 (3.3%) y bydd yn diodeff llifogydd o afonydd, neu rhwng 1 ym mhob 200 (0.5%) ac 1 ym mhob 30 (3.3%) yn achos llifogydd o'r môr.
- Os disgrifir bod gan rywle risg '**isell**' o lifogydd, mae hyn yn golygu, ym mhob blwyddyn, fod siawns rhwng 1 ym mhob 1,000 (0.1%) ac 1 ym mhob 100 (1%) y bydd yn diodeff llifogydd o afonydd, neu rhwng 1 ym mhob 1,000 (0.1%) ac 1 ym mhob 200 (0.5%) yn achos llifogydd o'r môr.

Mae'r adran ganlynol yn dangos y niferoedd sydd mewn perygl o lifogydd ar draws Lle Gogledd-orllewin Cymru. Os byddai'n well gennych weld ble sydd mewn perygl o ddiodeff llifogydd ar ffurf map, mae nifer o gynhyrchion mapio llifogydd ar gael ar ein gwefan. Maen nhw'n dangos, ar ffurf weledol, ble mae perygl o lifogydd ledled Cymru, fesul ffynhonnell. I gael y mapiau diweddaraf, ewch i'n gwefan: [gweld eich risg llifogydd yn ôl cod post](#) a [gweld eich risg llifogydd ar fap](#).

Mae'r ffigurau a ddefnyddir yn yr adran ganlynol wedi'u rhannu'n risg o afonydd a risg o'r môr. Mewn gwirionedd, gall rhai eiddo fod yn agored i lifogydd o afonydd ac o'r môr, ond gall hyn gymhlethu esboniadau a sut y cyflwynir data, felly ymdrinnir â pherygl llifogydd o afonydd a pherygl llifogydd o'r môr ar wahân. Wrth gwrs, gall rhai eiddo fod mewn perygl o lifogydd dŵr wyneb hefyd. Nid yw hyn wedi'i gynnwys yn y CRhPLI CNC hwn, oherwydd awdurdodau lleol sy'n arwain ar y math hwn o lifogydd. I gael gwybod mwy am lifogydd o ddŵr wyneb a nentydd llai, cysylltwch â'r Awdurdod Lleol perthnasol.

Mae'r ffigurau eiddo mewn perygl a ddarperir yn y CRhPLI hwn yn adlewyrchu ein dealltwriaeth o berygl llifogydd heb amddiffynfeydd rhag llifogydd. Mae hyn yn cyfleu gwir raddfa'r perygl llifogydd yng Nghymru ac yn adlewyrchu'r ffaith y gall unrhyw amddiffynfa rhag llifogydd gael ei llethu mewn amodau sydd y tu hwnt i'r hyn y cafodd ei chynllunio ar ei gyfer.

Beth sydd mewn perygl yn Lle Gogledd-orllewin Cymru heddiw?

Mae'r tablau canlynol yn dangos dosbarthiad yr eiddo fesul lefel perygl a ffynhonnell ar draws Lle Gogledd-orllewin Cymru pe na bai unrhyw amddiffynfeydd yn bresennol.

Tabl 1: Nifer yr eiddo preswyl, eiddo dibreswyl a gwasanaethau sydd mewn perygl o ddiodeff llifogydd o'r môr yn Lle Gogledd-orllewin Cymru.

Categori perygl llifogydd	Eiddo preswyl mewn perygl o ddiodeff llifogydd	Eiddo dibreswyl mewn perygl o ddiodeff llifogydd	Eiddo dibreswyl mewn perygl o ddiodeff llifogydd	Cyfanswm mewn perygl o ddiodeff llifogydd
Y Môr Uchel	7,452	676	184	8,312
Y Môr Canolig	3,351	600	131	4,082
Y Môr Isel	940	174	25	1,139
Cyfanswm y môr	11,743	1,450	340	13,533

Tabl 2: Nifer yr eiddo preswyl, eiddo dibreswyl a gwasanaethau sydd mewn perygl o ddiodeff llifogydd o'r môr yn Lle Gogledd-orllewin Cymru.

Categori perygl llifogydd	Eiddo preswyl mewn perygl o ddiodeff llifogydd	Eiddo dibreswyl mewn perygl o ddiodeff llifogydd	Eiddo dibreswyl mewn perygl o ddiodeff llifogydd	Cyfanswm mewn perygl o ddiodeff llifogydd
Afonydd Uchel	1,467	239	79	1,785
Afonydd Canolig	1,953	115	39	2,107
Afonydd Isel	4,251	477	136	4,864
Cyfanswm Afonydd	7,671	831	254	8,756

* Mae gwasanaethau allweddol yn cynnwys mathau o eiddo sy'n ymwneud ag addysg, gwasanaethau iechyd, trafndiaeth, cyfleustodau a gwasanaethau brys.

Mae'r rhwydwaith o amddiffynfeydd rhag llifogydd o'r môr ar draws Lle Gogledd-orllewin Cymru yn helpu i leihau'r perygl i bron 8,000 eiddo (preswyl a dibreswyl) yn y senario 1 ym mhob 30 mlynedd (tebygolrwydd gormodiant blynyddol o 3.3%) a mwy nag 11,000 eiddo yn y senario 1 ym mhob 200 mlynedd (tebygolrwydd gormodiant blynyddol o 2%). Yn ogystal â hyn, mae'r rhwydwaith o amddiffynfeydd rhag llifogydd o afonydd yn helpu i leihau'r perygl i dros 400 eiddo (preswyl a dibreswyl) yn y senario 1 ym mhob 30 mlynedd (tebygolrwydd gormodiant blynyddol o 3.3%) a mwy na 700 eiddo yn y senario 1 ym mhob 100 mlynedd (tebygolrwydd gormodiant blynyddol o 1%). Nid yw'r eiddo hyn yn cael eu tynnu oddi ar categori risg yn gyfan gwbl gan amddiffynfeydd rhag llifogydd gan nad yw amddiffynfeydd hyn yn atal y perygl o lifogydd yn llwyr oherwydd gall ddŵr ddod drostynt neu gallant fethu, ond mae'r risg yn cael ei leihau'n sylweddol.

Seilwaith trafndiaeth

Ar draws Lle Gogledd-orllewin Cymru, mae 62 cilometr o reilffyrdd a 433 cilometr o ffyrdd (bach a mawr) mewn perygl o ddiodeff llifogydd o'r môr. Mae hyn yn golygu bod dros 33% o'r holl reilffyrdd ledled Cymru sydd mewn perygl o ddiodeff llifogydd o'r môr yn Lle Gogledd-orllewin Cymru. Yn ogystal, mae 26 cilometr o reilffyrdd a 396 cilometr o ffyrdd mewn perygl o ddiodeff llifogydd o afonydd.

Tir amaethyddol

Mae ychydig llai na 400 cilometr sgwâr o dir amaethyddol mewn perygl o ddiodeff llifogydd o'r môr ledled Cymru. Yn Lle Gogledd-orllewin Cymru, mae 134 cilometr sgwâr mewn perygl o ddiodeff llifogydd o'r môr, sef 34% o gyfanswm Cymru gyfan.

Yn ogystal, mae gan Gymru dros 800 cilometr sgwâr o dir amaethyddol sydd mewn perygl o ddiodeff llifogydd o afonydd. Mae 20% o gyfanswm y tir amaethyddol sydd mewn perygl o ddiodeff llifogydd o'r môr yn Lle Gogledd-orllewin Cymru.

Yr amgylchedd

Mae nifer o safleoedd gwarchoddedig mewn perygl o ddiodeff llifogydd ar draws Lle Gogledd-orllewin Cymru. Mae Tabl 3 isod yn rhoi gwybodaeth am raddfa'r safleoedd sydd mewn perygl yng Nghymru, yn ogystal â'r gyfran berthnasol o risg sy'n bresennol yng Ngogledd-orllewin Cymru.

Tabl 3: Nifer y safleoedd dynodedig o bwysigrwydd cenedlaethol sydd mewn perygl o lifogydd o afonydd a'r môr yn Lle Gogledd-orllewin Cymru.

Dynodiad	Llifogydd o'r môr – cyfanswm yr arwynebedd sydd mewn perygl yng Nghymru (km ²)	Llifogydd o'r môr – cyfanswm yr arwynebedd sydd mewn perygl yng Ngogledd-orllewin Cymru (km ²)	Llifogydd o'r môr – % o'r cyfanswm yng Nghymru sydd mewn perygl yng Ngogledd-orllewin Cymru	Llifogydd o afonydd – cyfanswm yr arwynebedd sydd mewn perygl yng Nghymru (km ²)	Llifogydd o afonydd – cyfanswm yr arwynebedd sydd mewn perygl yng Ngogledd-orllewin Cymru (km ²)	Llifogydd o afonydd – % o'r cyfanswm yng Nghymru sydd mewn perygl yng Ngogledd-orllewin Cymru
RAMSAR	204	4	2	23	6	26
Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACAau)	385	76	20	113	29	26

Dynodiad	Llifogydd o'r môr – cyfanswm yr arwynebedd sydd mewn perygl yng Nghymru (km²)	Llifogydd o'r môr – cyfanswm yr arwynebedd sydd mewn perygl yng Ngogledd-orllewin Cymru (km²)	Llifogydd o'r môr – % o'r cyfanswm yng Nghymru sydd mewn perygl yng Ngogledd-orllewin Cymru	Llifogydd o afonydd – cyfanswm yr arwynebedd sydd mewn perygl yng Nghymru (km²)	Llifogydd o afonydd – cyfanswm yr arwynebedd sydd mewn perygl yng Ngogledd-orllewin Cymru (km²)	Llifogydd o afonydd – % o'r cyfanswm yng Nghymru sydd mewn perygl yng Ngogledd-orllewin Cymru
Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGAAu)	240	38	16	21	5	24
Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGAau)	513	121	24	180	59	33
Henebion cofrestredig	1	0.6	50	1	0.2	16

Y cymunedau sy'n wynebu'r perygl mwyaf yng Ngogledd-orllewin Cymru

Drwy'r cam Asesu Perygl Llifogydd Rhagarweiniol sy'n gysylltiedig â'r FRMP hwn, nodwyd bod cymunedau'n "Ardaloedd Perygl Llifogydd". Cafodd yr asesiad a gynhaliwyd i nodi Ardaloedd Perygl Llifogydd ledled Cymru ei gwblhau gan ddefnyddio statws diamddiffyn cymunedau er mwyn creu llwyfan ar gyfer cymharu. Ar gyfer Gogledd-orllewin Cymru, mae pob un o'r cymunedau sydd wedi'u nodi'n Ardaloedd Perygl Llifogydd mewn perygl o ddioddef llifogydd o'r môr. Mae'n bwysig bod gwaith yn cael ei wneud i gynnal yr amddiffyniad presennol y mae'r gymuned yn elwa arno, yn ogystal â pharhau i geisio nodi opsiynau i leihau'r perygl llifogydd ymhellach mewn ardaloedd penodol.

Mae'r Ardaloedd Perygl Llifogydd yn Lle Gogledd-orllewin Cymru fel a ganlyn:

- Abergele – perygl llifogydd o'r môr
- Fairbourne – perygl llifogydd o'r môr
- Bae Cinmel – perygl llifogydd o'r môr
- Porthmadog – perygl llifogydd o'r môr
- Pwllheli – perygl llifogydd o'r môr
- Tywyn – perygl llifogydd o'r môr


Yn ogystal â hyn, mae CNC wedi ystyried ardaloedd ychwanegol sydd mewn perygl o ddioddef llifogydd o afonydd a'r môr. Mae Ffigur 2 a Thabl 4 sy'n cyd-fynd ag ef yn dangos y cymunedau ar draws Gogledd-orllewin Cymru sy'n wynebu perygl o lifogydd o afonydd a'r môr fel y nodwyd gan y Gofrestr Cymunedau mewn Perygl a lle'r ydym ni'n bwriadu gweithredu i reoli perygl llifogydd. Mae cymunedau eraill yng Nghanolbarth Cymru hefyd mewn perygl o ddioddef llifogydd ond y rhai a restrir isod yw'r cymunedau lle mae camau gweithredu wedi'u cynllunio yn y blynyddoedd nesaf i helpu i reoli a lleihau'r risg o lifogydd.

Tabl 4: Enw pob un o'r cymunedau a amlygir yn Ffigur 2. Mae cymunedau Ardal Perygl Llifogydd ar gyfer llifogydd o afonydd a'r môr yn cael eu hamlygu mewn print trwm.

Enw cymuned	Ardal Awdurdod Lleol
Aberdaron	Gwynedd
Abererch	Gwynedd
Abergele	Conwy
Abergwyngregyn	Gwynedd
Amlwch	Sir Ynys Môn
Y Bala	Gwynedd
Bangor	Gwynedd
Beddgelert	Gwynedd
Betws Garmon	Gwynedd
Bontnewydd	Gwynedd
Bryncrug	Gwynedd
Caernarfon	Gwynedd
Cricieth	Gwynedd
Dwygyfylchi	Conwy

Enw cymuned	Ardal Awdurdod Lleol
Dwyran	Sir Ynys Môn
Fairbourne	Gwynedd
Bae Cinmel	Conwy
Llanbedr	Gwynedd
Llandudno	Conwy
Cyffordd Llandudno	Conwy
Llanfair Talhaearn	Conwy
Llanfairfechan	Conwy
Llanfihangel-y-traethau	Gwynedd
Llangefni	Sir Ynys Môn
Llangwm	Conwy
Llangwm	Conwy
Llanuwchllyn	Gwynedd
Malltraeth	Sir Ynys Môn
Mochdre	Conwy
Pennal	Gwynedd
Pontllyfni	Gwynedd
Porthmadog	Gwynedd
Pwllheli	Gwynedd
Talsarnau	Gwynedd
Tywyn	Conwy
Trefriw	Conwy
Tywyn	Gwynedd
Y Fali / Y Dyffryn	Sir Ynys Môn

Ffigur 2: Y cymunedau ar draws Lle Gogledd-orllewin Cymru sy'n wynebu'r perygl mwyaf o ddioddef llifogydd o afonydd ac o'r môr fel y nodir gan y Gofrestr Cymunedau mewn Perygl.



5. Y perygl llifogydd heddiw yng Ngogledd-orllewin Cymru

Ledled Gogledd-orllewin Cymru, rhagwelir y bydd bron i 18,000 eiddo mewn perygl o ddiodeff llifogydd o'r môr a mwy nag 11,000 o eiddo mewn perygl o lifogydd o afonydd erbyn 2120. Mae hyn yn gynydd o bron i 4,500 eiddo sydd mewn perygl o ddiodeff llifogydd o'r môr a chynnydd o fwy na 2,000 eiddo sydd mewn perygl o ddiodeff llifogydd o afonydd.

Mae hyn yn cyfateb i amcangyfrif y bydd mwy na 47,000 o bobl sydd mewn perygl o ddiodeff llifogydd o'r môr a tua 29,000 o bobl mewn perygl o ddiodeff llifogydd o afonydd erbyn 2120. Felly bydd 11,000 yn fwy o bobl mewn perygl o ddiodeff llifogydd o'r môr a 6,000 yn fwy o bobl mewn perygl o ddiodeff llifogydd o afonydd o gymharu â 2020.

Mae rhagamcanion hinsawdd yn dangos y byddwn yn gweld cynnydd yn amlder a dwyster digwyddiadau tywydd eithafol, gan gynnwys stormydd yn yr haf a chyfnodau gwlyb estynedig yn ystod y gaeaf. Bydd hyn yn cynyddu llifoedd brig yn ein hafonydd, a disgwylir y bydd hyn yn cynyddu'r risg o fflachlifogydd. Mae llifogydd o'r fath yn anodd iawn eu rhagolygu a'u rhagweld a gall fod yn heriol iawn eu rheoli.

Mae rhagamcanion hinsawdd hefyd yn awgrymu y bydd lefel y môr yn codi ym mhob senario allyriadau ac ym mhob lleoliad o amgylch y DU. Bydd ardaloedd arfordirol yn fwyfwy agored i effaith gynyddol y tonnau ac erydu arfordirol cyflymach sy'n gysylltiedig â'r newid yn yr hinsawdd. Bydd y ffactorau hyn nid yn unig yn effeithio ar bobl y cymunedau arfordirol sy'n byw ac yn gweithio mewn ardaloedd arfordirol, ond ar rai o gynefinoedd naturiol pwysicaf Cymru a safleoedd treftadaeth sydd wedi'u lleoli ar hyd ein harfordir.

Rydym wedi dilyn [Canllawiau Ymaddasu i Newid yn yr Hinsawdd](#) Llywodraeth Cymru fel sylfaen i'n hallbynnau modelu newid hinsawdd, ac mae hynny wedi ein galluogi i gynnwys ein rhagamcanion yn y CRhPLI hwn. Rydym wedi defnyddio'r amcangyfrif newid hinsawdd canolog i gynhyrchu'r allbynnau data a ddefnyddir yn yr adran ganlynol.

Beth fydd mewn perygl o lifogydd yn Lle Gogledd-orllewin Cymru erbyn 2120?

Mae'r tablau a ganlyn yn dangos lefel y risg a'r ffynhonnell ar draws Lle Gogledd-orllewin Cymru pe na bai unrhyw amddiffynfeydd yn bresennol ar gyfer 2020 a 2120.

Llifogydd o'r môr

Tabl 5: Y niferoedd sydd mewn perygl o ddiodeff llifogydd o'r môr ar gyfer 2020 a 2120 a'r gwahaniaeth a ragwelir yn Lle Gogledd-orllewin Cymru.

Pobl, yr economi neu'r amgylchedd	Agwedd	Unedau	Mewn perygl yn 2020	Mewn perygl yn 2120	Gwahaniaeth (Unedau)	Gwahaniaeth (%)
Pobl	Pobl	Cyfrifiad	36,152	47,448	+11,296	+31%

Pobl, yr economi neu'r amgylchedd	Agwedd	Unedau	Mewn perygl yn 2020	Mewn perygl yn 2120	Gwahaniaeth (Unedau)	Gwahaniaeth (%)
Pobl	Eiddo preswyl	Cyfrifiad	11,743	15,328	+3,585	+31%
Yr economi	Eiddo dibreswyl	Cyfrifiad	1,790	2,584	+794	+44%
Yr economi	Gwasanaethau allweddol	Cyfrifiad	340	547	+207	+61%
Yr economi	Rheilffyrdd	Km	62	91	+29	+47%
Yr economi	Ffyrdd	Km	433	606	+173	+40%
Yr economi	Amaethyddiaeth	Km ²	134	157	+23	+17%
Yr amgylchedd	RAMSAR	Km ²	4	4	0	-
Yr amgylchedd	Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACAau)	Km ²	76	80	+4	+5%
Yr amgylchedd	Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGAau)	Km ²	38	38	0	-
Yr amgylchedd	Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGAau)	Km ²	121	126	+5	+4%
Yr amgylchedd	Henebion cofrestredig	Km ²	0.6	0.7	+0.1	+17%

Llifogydd o afonydd

Tabl 6: Y niferoedd sydd mewn perygl o ddiodef llifogydd o'r môr ar gyfer 2020 a 2120 a'r gwahaniaeth a ragwelir yn Lle Gogledd-orllewin Cymru.

Pobl, yr economi neu'r amgylchedd	Agwedd	Unedau	Mewn perygl yn 2020	Mewn perygl yn 2120	Gwahaniaeth (Unedau)	Gwahaniaeth (%)
Pobl	Pobl	Cyfrifiad	22,904	28,986	+6,082	+27%
Pobl	Eiddo preswyl	Cyfrifiad	7,671	9,640	+1,969	+26%
Yr economi	Eiddo dibreswyl	Cyfrifiad	1,085	1,400	+315	+29%
Yr economi	Gwasanaethau allweddol	Cyfrifiad	254	318	+64	+25%
Yr economi	Rheilffyrdd	Km	26	37	+11	+42%

Pobl, yr economi neu'r amgylchedd	Agwedd	Unedau	Mewn perygl yn 2020	Mewn perygl yn 2120	Gwahaniaeth (Unedau)	Gwahaniaeth (%)
Yr economi	Ffyrdd	Km	396	485	+89	+22%
Yr economi	Amaethyddiaeth	Km ²	163	179	+16	+10%
Yr amgylchedd	RAMSAR	Km ²	6	6	0	-
Yr amgylchedd	Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACAau)	Km ²	29	32	+3	+10%
Yr amgylchedd	Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGAau)	Km ²	5	6	+1	+20%
Yr amgylchedd	Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGAau)	Km ²	59	64	+5	+8%
Yr amgylchedd	Henebion cofrestredig	Km ²	0.2	0.3	+0.1	+50%

Y cymunedau sy'n wynebu'r perygl mwyaf o lifogydd yn y dyfodol yng Ngogledd-orllewin Cymru

Mae'r rhestrau isod a'r map sy'n dilyn yn dangos y cymunedau ar draws Lle Gogledd-orllewin Cymru y rhagwelir y byddant yn gweld y newid mwyaf mewn perygl (fel y'i diffinnir yn ein Cofrestr Cymunedau Mewn Perygl) yn sgil y perygl o lifogydd o afonydd a'r môr yn 2120. Rhagwelir hefyd y bydd cymunedau eraill o fewn Lle Gogledd-orllewin Cymru yn gweld newid mewn perygl erbyn 2120 ond rhagwelir mai'r rhai a restrir isod a fydd yn gweld y newid mwyaf.


Erbyn 2120, rhagwelir mai'r pum cymuned yn Lle Gogledd-orllewin Cymru a fydd yn gweld y newid mwyaf mewn perygl o lifogydd o'r môr yw:

- Abergele
- Conwy
- Bae Cinnel
- Llandudno
- Pwllheli

Erbyn 2120, rhagwelir mai'r pum cymuned yn Lle Gogledd-orllewin Cymru a fydd yn gweld y newid mwyaf mewn perygl o lifogydd o afonydd yw:

- Abergele
- Dolgellau
- Fairbourne
- Bae Cinmel
- Tywyn

Ffigur 3: Y cymunedau ar draws Lle Gogledd-orllewin Cymru y rhagwelir y byddant yn gweld y newid mwyaf mewn perygl erbyn 2120. Mae'r map yn dangos y pum cymuned uchaf o ran perygl llifogydd o afonydd a'r pump uchaf o ran perygl llifogydd o'r môr.



Beth ydym yn ei wneud ar gyfer cymunedau sydd mewn perygl o ddioddef llifogydd yn y dyfodol

O fewn ein gweithgareddau a'n mesurau a nodir yn y CRhPLI hwn, byddwn yn ystyried yr angen i ystyried perygl llifogydd yn y tymor hir, yr angen i ystyried yr effaith y bydd newid hinsawdd yn ei gael ar Gymru a'r angen i weithredu nawr i ystyried sut i liniaru ac addasu yng nghyd-destun yr Argyfwng Hinsawdd. Byddwn yn gwneud hyn drwy geisio deall effeithiau newid hinsawdd yn well trwy ein data a'n tystiolaeth, a defnyddio hyn i lywio'r cyngor a ddarparwn i eraill a'r gwaith a wnawn.

Pan fyddwn yn ystyried, dylunio ac adeiladu cynlluniau lliniaru llifogydd newydd rydym yn caniatáu ar gyfer diogelu ein strwythurau yn y dyfodol mewn perthynas â rhagamcanion ar gyfer newid hinsawdd yn y dyfodol. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod na fydd yn bosibl atal llifogydd ym mhob lleoliad nawr ac yn y dyfodol trwy weithgareddau CRhPLI traddodiadol, felly rydym hefyd yn cychwyn cynllunio addasu tymor hir mewn nifer o leoliadau, mae'r rhain wedi'u cynnwys fel Mesurau Lleol yn yr adrannau ar sail Lle o'r CRhPLI hwn.

Mae Polisi Cynllunio Llywodraeth Cymru TAN15 yn ei gwneud yn ofynnol i ddatblygiad newydd ystyried newid hinsawdd dros oes y datblygiad. Mae hyn yn helpu i sicrhau fod rhywfaint o wytnwch yn wyneb ein hinsawdd newidiol yn cael ei ystyried yn mewn cynigion datblygu a gall hefyd helpu gydag adferiad pe bai digwyddiad llifogydd yn digwydd.


Er mwyn cefnogi penderfyniadau cynllunio strategol a cheisiadau cynllunio unigol, rydym wedi datblygu [Map Llifogydd newydd ar gyfer Cynllunio \(FMfP\)](#). Mae'r FMfP yn dangos sut y bydd newid hinsawdd yn effeithio ar raddfeydd perygl llifogydd dros y 100 mlynedd nesaf. Mae'n dangos cwmpas potensial llifogydd o dybio nad oes unrhyw amddiffynfeydd yn eu lle. Defnyddiwyd amcangyfrif canolog o newid hinsawdd (yn amrywio o gynnydd o 20-30% mewn llifoedd) ar gyfer llif brig afonydd a defnyddiwyd 1.1m o gynnydd yn lefel y môr ar hyd arfordir Cymru. Er nad yw'n bolisi cynllunio ffurfiol eto, rydym yn defnyddio'r FMfP fel y wybodaeth orau sydd ar gael i lywio ein cyngor cynllunio yn ein rôl fel ymgynghorai statudol.

O ran gweithio i ddylanwadu ar bolisi, rydym yn gweithio'n agos ar draws Llywodraeth Cymru i gefnogi datblygiad polisi a strategaethau. Mae newid hinsawdd yn flaenllaw yn y trafodaethau hyn gan gynnwys archwilio sut y gallwn wella dealltwriaeth a rhoi gwybod am berygl llifogydd. Rydym hefyd wedi comisiynu gwaith yn ddiweddar, gan edrych ar lwfansau newid hinsawdd diwygiedig ar gyfer llifoedd brig afonydd a digwyddiadau glaw. Byddwn yn defnyddio allbynnau'r prosiect hwn i argymhell diweddariadau i ganllawiau Llywodraeth Cymru ar lwfansau newid hinsawdd.

6. Gweithgaredd rheoli perygl llifogydd diweddar

Gwnaethom gyhoeddi ein Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd cylch cyntaf yn gynnar yn 2016. Roedd y cynlluniau hyn yn cynnwys nifer o fesurau ar raddfa gymunedol ar gyfer y blynyddoedd dilynol a fyddai'n helpu i reoli a lleihau'r perygl o lifogydd. Rydym wedi cynnal adolygiad o'r mesurau ar gyfer cymunedau yn Lle Gogledd-orllewin Cymru. Mae'r siart isod yn dangos crynodeb o'n cynnydd tuag at gyflawni'r mesurau hyn.

Ffigur 4: Y cynnydd a wnaed yn erbyn mesurau CNC a nodir yng nghylch cyntaf y CRhPLlau yng Ngogledd-orllewin Cymru.



Mae'r canlynol ymhlith uchafbwyntiau'r hyn a gyflawnwyd:

- Rydym wedi ymgymryd â cham cyntaf y gwaith gwella rheoli perygl llifogydd yn Llanfair Talhaearn i gynyddu'r amddiffyniad rhag llifogydd i 29 o dai a phedwar busnes. Rydym hefyd wedi gwneud y gwaith gwerthuso ar gyfer cyflawni cynllun rheoli perygl llifogydd posibl yn Llangefni.
- Rydym wedi dechrau gwaith i ystyried y strategaeth hirdymor ar gyfer rheoli'r perygl llifogydd mewn nifer o gymunedau arfordirol, gan gynnwys Fairbourne, Porthmadog a Phyllheli.
- Rydym wedi cyflawni cynlluniau cynnal a chadw megis y rheini yn Abererch, y Bontnewydd, Draenogau a Fairbourne, er mwyn cynnal ein hamddiffynfeydd, ac wedi darparu lefel barhaus o amddiffyniad i'r eiddo hynny sy'n elwa arnynt.
- Rydym wedi dechrau gwaith yn Llyn Tegid i reoli diogelwch cronfeydd dŵr, perygl llifogydd a sicrhau parhad y gwasanaeth ar gyfer adnoddau dŵr i'r dyfodol.

Dylid cydnabod bod llawer o'r camau gweithredu a nodwyd yng nghylch cyntaf y CRhPLlau yn cymryd cryn amser ac ymdrech i'w cyflawni ac, er bod nifer cymharol y mesurau a gwblhawyd yn isel, mae nifer sylweddol o'r mesurau a nodwyd yn cael eu cyflawni ar hyn o bryd. Hefyd, mae digwyddiadau llifogydd gwirioneddol yn dylanwadu'n fawr ar ein cynlluniau gwaith a'r gallu i'w cyflawni. Er enghraifft, cafodd llifogydd mis Chwefror 2020 yng Nghymru effaith sylweddol ar ein gallu i fwrw ymlaen â gwaith a gynlluniwyd.

7. Gwaith rheoli perygl llifogydd yr ydym yn ei gynllunio yng Ngogledd-orllewin Cymru

Cyflwyniad

Mae nifer o gymunedau yn Lle Gogledd-orllewin Cymru lle rydym yn ystyried bod rhagor i'w wneud o hyd i reoli a lleihau'r perygl o lifogydd. Rhoddir sylw i'r cymunedau hyn a mesurau cysylltiedig yn yr adran hon. Mae Adran Genedlaethol y CRhPLI hwn yn amlinellu sut rydym yn blaenoriaethu ein gwaith ar sail risg fel bod y cymunedau hynny sy'n wynebu'r perygl llifogydd mwyaf yn cael sylw yn gyntaf.

Rydym yn rheoli perygl llifogydd ar ystod o wahanol raddfeydd, gan ddibynnu ar yr hyn fydd yn cyflawni'r canlyniad a ddymunir. Mae'r Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd hwn yn darparu gwybodaeth ar ddwy raddfa. Ar raddfa genedlaethol ar draws Cymru gyfan drwy ein Mesurau Cenedlaethol (y gweithgareddau a wnawn ledled Cymru, y mae rhai ohonynt yn gwneud ein gweithredoedd ar y raddfa leol yn bosibl), ac ar raddfa gymunedol leol. Mae'r Mesurau Cenedlaethol i'w gweld yn yr adran Genedlaethol. Mae'r mesurau ar raddfa gymunedol leol i'w gweld yn yr adran hon.

Terminoleg ar gyfer y mesur

Math o fesur

Mae pedwar math o fesurau a chaiff mesurau lleol eu categoreiddio yn ôl y math o fesur.

Atal y difrod a achosir gan lifogydd, mae hyn yn cynnwys ymdrechion i wneud dalgylchoedd yn fwy gwydn, ac ymdrechion i atal ardaloedd rhag dod yn fwy agored i niwed, i berygl llifogydd.

Amddiffyn rhag llifogydd mewn lleoliadau penodol drwy ddarparu cynlluniau a dulliau i leihau'r risg a'r tebygolrwydd o lifogydd.

Parodrwydd cymunedau ac ymatebwyr brys i weithredu os bydd llifogydd ddigwydd, a all leihau effeithiau llifogydd a gwneud cymunedau'n fwy gwydn.

Adolygu i wella'n dealltwriaeth o berygl llifogydd er mwyn llywio ac ystyried camau gweithredu posibl yn y dyfodol yn well.

Mae pob un o'r mathau uchod o fesurau yn ceisio lleihau'r tebygolrwydd o lifogydd neu'r effeithiau a gânt ar bobl ac eiddo, ond dylid pwysleisio mai dim ond i ryw raddau y gellir rheoli perygl llifogydd. Ni allwn ddileu perygl llifogydd yn gyfan gwbl a bydd potensial bob amser i ddigwyddiadau llifogydd fynd y tu hwnt i derfynau'r technegau rheoli risg a ddefnyddir. Er enghraifft, bydd amddiffynfeydd rhag llifogydd yn cael eu hadeiladu o fewn cyfyngiadau technegol, economaidd ac amgylcheddol, felly mewn digwyddiadau eithafol gall dŵr llifogydd fod yn fwy na'r capasiti y cawsant eu cynllunio i'w gynnwys.

Statws gweithredu'r mesur

Heb ddechrau: nid yw'r gwaith wedi dechrau eto.

Parhaus: mae'r gwaith wedi dechrau.

Amserlen y mesur

Mae'r amserlenni a gynigir yn ffactor o flaenoriaeth gymharol a chymhlethdod tebygol yr hyn y gallai fod ei angen; Maent hefyd yn amodol ar gyllid a chapasiti.

Tymor byr: Bwriedir ei gyflwyno yn y tymor byr (rhwng blwyddyn a dwy flynedd)

Tymor canolig: Bwriedir ei gyflwyno yn y tymor canolig (rhwng tair a phedair blynedd)

Tymor hir: Bwriedir ei gyflawni yn y tymor hir (pum mlynedd neu ragor)

Blaenoriaethau

Blaenoriaeth 1: Ymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur drwy chwilio am arferion arloesol, hyrwyddo dulliau o ymaddasu a pharatoi ar gyfer newid yn y dyfodol.

Blaenoriaeth 2: Datblygu a darparu dulliau dalgylch i leihau llifogydd a chyfrannu at wytnwch ecosystemol, gan weithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid lle bo hynny'n bosibl ac yn briodol.

Blaenoriaeth 3: Gwella gallu cymunedau i wrthsefyll perygl llifogydd nawr ac yn y dyfodol. Gweithio i gefnogi cymunedau i ddod yn fwy ymwybodol a chymryd camau i liniaru eu perygl llifogydd eu hunain.

Blaenoriaeth 4: Ceisio a manteisio ar gyfleoedd i wella iechyd a lles cymunedau, bioamrywiaeth a'r amgylchedd, a'r manteision ehangach y maent yn eu darparu, i gefnogi ymateb CNC i'r Argyfwng Natur.

Blaenoriaeth 5: Cynyddu gwydnwch asedau rheoli perygl llifogydd, i leihau effeithiau perygl llifogydd nawr ac yn y dyfodol.

Blaenoriaeth 6: Gwella effeithiolrwydd ein cynhyrchion a'n gwasanaethau allweddol, gan gynnwys ein gwasanaethau digidol, er mwyn darparu gwasanaethau gwell i'r cyhoedd.

Blaenoriaeth 7: Gwella'n barhaus ein dealltwriaeth o berygl llifogydd nawr ac yn y dyfodol (gan gynnwys newid hinsawdd) fel bod penderfyniadau'n seiliedig ar y dystiolaeth a'r wybodaeth orau sydd ar gael.

Blaenoriaeth 8: Darparu ymateb effeithiol a pharhaus i ddigwyddiadau llifogydd, gan weithio ar y cyd ag awdurdodau rheoli risg a phartneriaid proffesiynol lle bo angen.

Blaenoriaeth 9: Gwella'n barhaus ein gwasanaeth rhybuddion llifogydd i alluogi pobl i weithredu'n effeithiol mewn ymateb i lifogydd.

Blaenoriaeth 10: Darparu cyngor cynllunio effeithiol ar beryglon a chanlyniadau llifogydd i leihau datblygu amhriodol mewn ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd.

Blaenoriaeth 11: Blaenoriaethu ein gwaith ar sail risg yn unol â Strategaeth Genedlaethol Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol Llywodraeth Cymru a datblygu ein sylfaen dystiolaeth i sicrhau buddsoddiad yn y dyfodol mewn rheoli perygl llifogydd.

Blaenoriaeth 12: Hyrwyddo, cefnogi a gweithredu atebion sy'n seiliedig ar natur lle bo'n briodol i leihau'r perygl o lifogydd ac effeithiau llifogydd a sicrhau buddion ehangach i'r ecosystem.

Blaenoriaeth 13: Ymgymryd â'n rôl oruchwylio strategol i ddeall pob ffynhonnell o berygl llifogydd ar sail genedlaethol er mwyn llywio buddsoddi a sicrhau ein bod yn cynllunio gwaith yn y ffordd orau, gan gynnwys gyda phartneriaid eraill.

Blaenoriaeth 14: Sicrhau bod gennym weithlu Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol gyda'r galluedd a'r sgiliau sydd eu hangen i gyflawni ein blaenoriaethau ac ymateb i heriau'r dyfodol.

8. Cynllun Cyflawni CNC ar gyfer Lle Gogledd-orllewin Cymru

Mae'r cynllun cyflawni a ganlyn yn nodi, ar sail gymunedol, y mesurau yr ydym yn y broses o'u gweithredu neu'n bwriadu eu gweithredu i helpu i reoli'r perygl o lifogydd i'r gymuned honno. Mae hyn yn rhoi rhestr o fesurau yr ydym yn bwriadu eu cymryd o fewn Lle Gogledd-orllewin Cymru dros y blynyddoedd nesaf, yn amodol ar asesiad a chyfiawnhad ariannu.

Tabl 7: Y cynllun cyflawni o fesurau risg llifogydd arfaethedig ar gyfer Lle Gogledd-orllewin Cymru.

Cyf.	Lleoliad	Ffynhonnell	Enw'r mesur	Math o fesur	Dolen i Flaenoriaeth CRhPLI	Amserlen	Statws
GO1	Aberdaron	Afon/Y môr	Cynnal asesiad cychwynnol a gwaith dichonoldeb ar gyfer lleihau perygl llifogydd	Amddiffyn	1	Tymor hir	Heb ddechrau
GO2	Aberdaron	Afon/Y môr	Cynnal yr amddiffynfeydd a'r drefn archwilio bresennol	Amddiffyn	5	Tymor byr	Parhaus
GO3	Abererch	Y môr	Datblygu arfarniad cynllun ar gyfer cynllun lliniaru llifogydd	Amddiffyn	1	Tymor byr	Parhaus
GO4	Abererch	Afon	Datblygu arfarniad cynllun ar gyfer cynllun lliniaru llifogydd	Amddiffyn	1	Tymor canolig	Parhaus
GO5	Abererch	Afon/Y môr	Cynnal yr amddiffynfeydd a'r drefn archwilio bresennol	Amddiffyn	5	Tymor byr	Parhaus
GO6	Abergele	Afon	Dylunio ac adeiladu gwelliannau i asedau perygl llifogydd	Amddiffyn	1	Tymor hir	Parhaus
GO7	Abergele	Afon	Dylunio ac adeiladu gwelliannau i asedau perygl llifogydd	Amddiffyn	1	Tymor canolig	Heb ddechrau
GO8	Abergwyngregyn	Y môr	Ystyried opsiynau rheoli yn y dyfodol a gwneud gwaith cynllunio addasu arfordirol	Adolygu	1	Tymor hir	Heb ddechrau
GO9	Abergwyngregyn	Afon	Adeiladu model hydrologig	Adolygu	7	Tymor byr	Parhaus

Cyf.	Lleoliad	Ffynhon nell	Enw'r mesur	Math o fesur	Dolen i Flaenoria eth CRhPLI	Amserlen	Statws
GO10	Amlwch	Afon	Cynnal asesiad cychwynnol a gwaith dichonoldeb ar gyfer lleihau perygl llifogydd	Amddiffyn	1	Tymor canolig	Heb ddechrau
GO11	Y Bala	Afon	Gwella'r gwasanaeth rhybuddion llifogydd presennol	Parodrwydd	9	Tymor canolig	Parhaus
GO12	Y Bala	Afon	Diweddarau'r model hydrolog presennol	Adolygu	7	Tymor byr	Parhaus
GO13	Y Bala	Afon	Dylunio ac adeiladu gwelliannau i asedau perygl llifogydd	Amddiffyn	1	Tymor byr	Heb ddechrau
GO14	Y Bala	Afon	Cynnal yr amddiffynfeydd a'r drefn archwilio bresennol	Amddiffyn	5	Tymor byr	Parhaus
GO15	Bangor	Afon	Diweddarau'r model hydrolog presennol	Adolygu	7	Tymor byr	Parhaus
GO16	Beddgelert	Afon	Cynnal asesiad cychwynnol a gwaith dichonoldeb ar gyfer lleihau perygl llifogydd	Amddiffyn	1	Tymor byr	Heb ddechrau
GO17	Beddgelert	Afon	Gwella'r gwasanaeth rhybuddion llifogydd presennol	Parodrwydd	9	Tymor byr	Heb ddechrau
GO18	Betws Garmon – Teras Gwyrfai	Afon	Cynnal asesiad cychwynnol a gwaith dichonoldeb ar gyfer lleihau perygl llifogydd	Amddiffyn	1	Tymor byr	Parhaus
GO19	Bontnewydd	Afon	Dylunio ac adeiladu gwelliannau i asedau perygl llifogydd	Amddiffyn	1	Tymor byr	Parhaus
GO20	Bryncrug	Afon	Cynnal asesiad cychwynnol a gwaith dichonoldeb ar gyfer lleihau perygl llifogydd	Amddiffyn	1	Tymor canolig	Heb ddechrau
GO21	Bryncrug	Afon	Cynnal yr amddiffynfeydd a'r drefn archwilio bresennol	Amddiffyn	5	Tymor byr	Parhaus
GO22	Caernarfon (Melin Seiont)	Afon	Cynnal asesiad cychwynnol a gwaith dichonoldeb ar gyfer lleihau perygl llifogydd	Amddiffyn	1	Tymor byr	Parhaus

Cyf.	Lleoliad	Ffynhon nell	Enw'r mesur	Math o fesur	Dolen i Flaenoria eth CRhPLI	Amserlen	Statws
GO23	Clwyd	Y môr	Datblygu'r argymhellion o strategaeth Clwyd	Parodrwydd / Amddiffyn / Adolygu	1, 2	Tymor canolig	Parhaus
GO24	Clwyd	Afon/Y môr	Cynnal yr amddiffynfeydd a'r drefn archwilio bresennol	Amddiffyn	5	Tymor canolig	Heb ddechrau
GO25	Clwyd – Ffynnon y Ddôl	Afon	Cynnal asesiad cychwynol a gwaith dichonoldeb ar gyfer lleihau perygl llifogydd	Amddiffyn	1	Tymor byr	Heb ddechrau
GO26	Clwyd – Hen Ffordd Foryd	Y môr	Dylunio ac adeiladu gwelliannau i asedau perygl llifogydd	Amddiffyn	1	Tymor canolig	Heb ddechrau
NW27	Conwy	Afon	Gweithio gydag awdurdodau rheoli risg eraill lle mae gennym fuddiant ar y cyd, i gynllunio ac ymgymryd â gweithgareddau sy'n lleihau'r perygl o lifogydd i gymunedau	Atal / Amddiffyn / Parodrwydd / Adolygu	1, 2, 13	Tymor canolig	Heb ddechrau
NW28	Conwy	Afon/Y môr	Cynnal yr amddiffynfeydd a'r drefn archwilio bresennol	Amddiffyn	5	Tymor byr	Parhaus
GO29	Cricieth	Afon	Cynnal asesiad cychwynol a gwaith dichonoldeb ar gyfer lleihau perygl llifogydd	Amddiffyn	1	Tymor hir	Heb ddechrau
GO30	Dinas Dinlle	Y môr	Ystyried opsiynau rheoli yn y dyfodol a gwneud gwaith cynllunio addasu arfordirol	Adolygu	1	Tymor canolig	Parhaus
GO31	Dwygyfylchi	Afon	Adeiladu model hydrologig	Adolygu	7	Tymor hir	Heb ddechrau
GO32	Dwyran	Afon	Cynnal asesiad cychwynol a gwaith dichonoldeb ar gyfer lleihau perygl llifogydd	Amddiffyn	1	Tymor byr	Parhaus
GO33	Dwyran – Braint	Afon	Gwella'r gwasanaeth rhybuddion llifogydd presennol	Parodrwydd	9	Tymor byr	Heb ddechrau

Cyf.	Lleoliad	Ffynhon nell	Enw'r mesur	Math o fesur	Dolen i Flaenoria eth CRhPLI	Amserlen	Statws
GO34	Dysynni	Y môr	Ystyried opsiynau rheoli yn y dyfodol a gwneud gwaith cynllunio addasu arfordirol	Adolygu	1	Tymor canolig	Parhaus
GO35	Eryri Meirionnydd	Afon/Y môr	Dylunio ac adeiladu gwelliannau i asedau perygl llifogydd	Amddiffyn	1	Tymor canolig	Parhaus
GO36	Fairbourne	Y môr	Cynnal asesiad cychwynol a gwaith dichonoldeb ar gyfer lleihau perygl llifogydd	Amddiffyn	1	Tymor byr	Parhaus
GO37	Gwehelog – Mochras	Afon	Cynnal asesiad cychwynol a gwaith dichonoldeb ar gyfer lleihau perygl llifogydd	Amddiffyn	1	Tymor hir	Heb ddechrau
GO38	Harlech	Llanwol	Cynnal asesiad cychwynol a gwaith dichonoldeb ar gyfer lleihau perygl llifogydd	Amddiffyn	1	Tymor byr	Heb ddechrau
GO39	Bae Cinmel	Y môr	Cynnal asesiad cychwynol a gwaith dichonoldeb ar gyfer lleihau perygl llifogydd	Amddiffyn	1	Tymor byr	Parhaus
GO40	Bae Cinmel	Afon	Cynnal asesiad cychwynol a gwaith dichonoldeb ar gyfer lleihau perygl llifogydd	Amddiffyn	1	Tymor canolig	Heb ddechrau
GO41	Llanbedr	Llanwol	Cynnal asesiad cychwynol a gwaith dichonoldeb ar gyfer lleihau perygl llifogydd	Amddiffyn	1	Tymor canolig	Heb ddechrau
GO42	Llandudno	Y môr	Diweddarau'r model hydrolog presennol	Adolygu	7	Tymor canolig	Parhaus
GO43	Llanfair Talhaearn	Afon	Dylunio ac adeiladu gwelliannau i asedau perygl llifogydd	Amddiffyn	1	Tymor byr	Parhaus
GO44	Llanfair Talhaearn – Elwy	Afon	Dylunio ac adeiladu gwelliannau i asedau perygl llifogydd	Amddiffyn	1	Tymor byr	Parhaus

Cyf.	Lleoliad	Ffynhon nell	Enw'r mesur	Math o fesur	Dolen i Flaenoria eth CRhPLI	Amserlen	Statws
GO45	Llanfair Talhaearn – Nant Barrog	Afon	Dylunio ac adeiladu cynllun lliniaru llifogydd	Amddiffyn	1	Tymor byr	Parhaus
GO46	Llanfair Talhaearn – Nant Barrog	Afon	Ystyried ac integreiddio atebion sy'n seiliedig ar natur, gan gynnwys rheoli llifogydd yn naturiol yng nghynlluniau a gweithgareddau perygl llifogydd CNC	Atal	1, 2, 4, 12	Tymor byr	Parhaus
GO47	Llanfair Talhaearn	Afon	Gwella'r gwasanaeth rhybuddion llifogydd presennol	Parodrwydd	9	Tymor byr	Parhaus
GO48	Llanfairfechan	Afon	Diweddarau'r model hydrolog presennol	Adolygu	7	Tymor canolig	Heb ddechrau
GO49	Llifddor Llanfihangel-y- Traethau – Tŷ Gwyn	Y môr	Dylunio ac adeiladu gwelliannau i asedau perygl llifogydd	Amddiffyn	1	Tymor canolig	Heb ddechrau
GO50	Llangefni	Afon	Datblygu arfarniad cynllun ar gyfer cynllun lliniaru llifogydd	Amddiffyn	1	Tymor byr	Parhaus
GO51	Llanuwchllyn	Afon	Gwella'r gwasanaeth rhybuddion llifogydd presennol	Parodrwydd	9	Tymor canolig	Heb ddechrau
GO52	Llanuwchllyn	Afon	Diweddarau'r model hydrolog presennol	Adolygu	7	Tymor byr	Heb ddechrau
GO53	Llyn Tegid	Afon	Dylunio ac adeiladu cynllun lliniaru llifogydd	Amddiffyn	1	Tymor byr	Parhaus
GO54	Malltraeth	Y môr	Dylunio ac adeiladu gwelliannau i asedau perygl llifogydd	Amddiffyn	1	Tymor canolig	Parhaus
GO55	Mochdre	Afon	Diweddarau'r model hydrolog presennol	Adolygu	7	Tymor hir	Heb ddechrau
GO56	Arfordir Gogledd Cymru – Pensarn i Draeth Coch	Y môr	Adeiladu model hydrolog	Adolygu	7	Tymor canolig	Heb ddechrau
GO57	Arfordir Gogledd Cymru – Ynys Môn	Y môr	Adeiladu model hydrolog	Adolygu	7	Tymor hir	Heb ddechrau

Cyf.	Lleoliad	Ffynhon nell	Enw'r mesur	Math o fesur	Dolen i Flaenoria eth CRhPLI	Amserlen	Statws
GO58	Pennal	Afon	Cynnal asesiad cychwynnol a gwaith dichonoldeb ar gyfer lleihau perygl llifogydd	Amddiffyn	1	Tymor canolig	Heb ddechrau
GO59	Pontllyfni	Y môr	Ystyried opsiynau rheoli yn y dyfodol a gwneud gwaith cynllunio addasu arfordirol	Adolygu	1	Tymor hir	Heb ddechrau
GO60	Porthmadog	Y môr/afon	Gwella'r gwasanaeth rhybuddion llifogydd presennol	Parodrwydd	9	Tymor byr	Heb ddechrau
GO61	Porthmadog	Y môr/afon	Datblygu arfarniad cynllun ar gyfer cynllun lliniaru llifogydd	Amddiffyn	1	Tymor byr	Parhaus
GO62	Pwllheli	Afon/Y môr	Diweddarau'r model hydrolog presennol	Adolygu	7	Tymor byr	Parhaus
GO63	Pwllheli	Afon/Y môr	Datblygu arfarniad cynllun ar gyfer cynllun lliniaru llifogydd	Amddiffyn	1	Tymor byr	Parhaus
GO64	Talsarnau	Y môr	Ystyried opsiynau rheoli yn y dyfodol a gwneud gwaith cynllunio addasu arfordirol	Adolygu	1	Tymor hir	Heb ddechrau
GO65	Tan Lan	Y môr	Ystyried opsiynau rheoli yn y dyfodol a gwneud gwaith cynllunio addasu arfordirol	Adolygu	1	Tymor byr	Parhaus
GO66	Tywyn	Y môr	Cynnal yr amddiffynfeydd a'r drefn archwilio bresennol	Amddiffyn	5	Tymor hir	Parhaus
GO67	Trefriw – Dolen Crafnant	Afon	Dylunio ac adeiladu gwelliannau i asedau perygl llifogydd	Amddiffyn	1	Tymor byr	Parhaus
GO68	Trefriw – Heol y Dywysoges	Afon/Y môr	Cynnal asesiad cychwynnol a gwaith dichonoldeb ar gyfer lleihau perygl llifogydd	Amddiffyn	1	Tymor hir	Heb ddechrau
GO69	Tywyn	Afon	Cynnal asesiad cychwynnol a gwaith dichonoldeb ar gyfer lleihau perygl llifogydd	Amddiffyn	1	Tymor hir	Parhaus

Cyf.	Lleoliad	Ffynhon nell	Enw'r mesur	Math o fesur	Dolen i Flaenoria eth CRhPLI	Amserlen	Statws
GO70	Tywyn	Afon	Gwella'r gwasanaeth rhybuddion llifogydd presennol	Parodrwydd	9	Tymor hir	Heb ddechrau
GO71	Fali / Y Dyffryn	Afon/Y môr	Diweddarau'r model hydrolog presennol	Adolygu	7	Tymor hir	Heb ddechrau
GO72	Ynys Môn	Afon	Gweithio gydag awdurdodau rheoli risg eraill lle mae gennym fuddiant ar y cyd, i gynllunio ac ymgymryd â gweithgareddau sy'n lleihau'r perygl o lifogydd i gymunedau	Atal / Amddiffyn / Parodrwydd / Adolygu	1, 2, 13	Tymor canolig	Parhaus
GO73	Ynys Môn	Afon/Y môr	Cynnal yr amddiffynfeydd a'r drefn archwilio bresennol	Amddiffyn	5	Tymor byr	Parhaus
GO74	Lle Gogledd-orllewin Cymru	Afon/Y môr	Gweithio gydag awdurdodau rheoli risg eraill lle mae gennym fuddiant ar y cyd, i gynllunio ac ymgymryd â gweithgareddau sy'n lleihau'r perygl o lifogydd i gymunedau	Atal / Amddiffyn / Parodrwydd / Adolygu	1, 2, 13	Tymor byr	Parhaus

9. Monitro ac adolygu

Mae wedi bod yn ofynnol yn ôl y Rheoliadau Perygl Llifogydd i Gynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd cyhoeddedig gael eu hadolygu, a'u diweddarau os oes angen, bob 6 blynedd. Bydd Deddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023 yn dirymu'r ddeddfwriaeth hon erbyn diwedd 2023. Rydym yn bwriadu parhau i gynllunio ein gwaith fel hyn a byddwn yn adolygu'r mesurau o fewn y Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd yn flynyddol. Mae hyn yn debygol o ddigwydd yn ystod yr haf fel bod gwybodaeth gyfredol ar gael i lywio'r broses cynllunio busnes. Bydd y cynnydd o ran cyflwyno pob mesur yn cael ei asesu ac os oes angen yn cael ei ddiweddarau ar yr adeg hon a byddwn yn cynhyrchu adroddiadau diweddarau ar ein cynnydd yn ôl yr angen.

10. Rhagor o wybodaeth

Mae'r adran Lle Gogledd-orllewin Cymru hon yn un o chwe adran sy'n darparu gwybodaeth leol fanwl fel rhan o Gynllun Rheoli Perygl Llifogydd Cymru CNC. Mae yna adran trosolwg Cenedlaethol hefyd sy'n darparu gwybodaeth, blaenoriaethau a mesurau a osodwyd ar lefel Genedlaethol (Cymru).

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am sut rydym yn rheoli perygl llifogydd ledled Cymru, mae pob un o'r canlynol ar gael ichi:

Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd Cymru: Trosolwg cenedlaethol

Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd Cymru: Lle Canol De Cymru

Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd Cymru: Lle De-ddwyrain Cymru

Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd Cymru: Lle De-orllewin Cymru

Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd Cymru: Lle Canolbarth Cymru

Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd Cymru: Gogledd-ddwyrain Cymru